

Rhestr o Gwestiynau Cyffredin...

1. Beth yw'r rheswm dros y taliadau uniongyrchol ac am faint fyddan nhw'n para?

Gwneir y taliadau hyn yn lle'r pryd ysgol maethlon y byddai'ch plentyn wedi'i dderbyn yn yr ysgol. Gwneir un cyfandaliad i dalu am unrhyw gyfnod gwyliau ac unrhyw gyfnod lle mae'n rhaid i'ch plentyn / plant hunan-ynysu. Dysgwyr nad ydynt yn y Cyfnod Sylfaen ac felly na ddisgwylir iddynt fynd i adeiladau ysgol, gwneir taliadau wythnosol. Hyd at 9 Ebrill 2021.

2. Fel rhywun sy'n hawlio Prydau Ysgol Am Ddim, faint fyddai'n ei gael a pha mor aml y dylwn ddisgwyl yr arian yn fy nghyfrif banc?

Bydd £ 3.90 y dydd yn cael ei gredydu i'ch cyfrif am unrhyw gyfnod gwyliau neu hunan-ynysu. Gwneir taliadau am wyliau neu gyfnodau hunan-ynysu mewn un cyfandaliad. I ddisgwyr nad ydynt yn y Cyfnod Sylfaen (Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2) ac felly na ddisgwylir iddynt fynd i adeiladau ysgol gwneir taliadau wythnosol.

3. Ar beth ddylwn i wario'r arian?

Dylech wario'r arian ar fwyd maethlon i'ch plentyn/plant, yr un fath a'r bwyd sy'n cael ei ddarparu ar fwydlen ginio'r ysgol, yn cynnwys ffrwythau a llysiau ffres. Dyma arweiniad bwyta'n dda lechyd Cyhoeddus Cymru i'ch cynorthwyo chi.

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/eatwell-guide.pdf>

4. Yn lle ga'i wario'r arian?

Dylech wario'r arian pan fyddwch yn gwneud eich siopa arferol. Cofiwch ddilyn yr arweiniad safonol ar reoli lledaeniad Covid-19 - cadwch bellter o 2 fetr rhyngoch chi a phobl eraill.

5. Sut mae cofrestru am Brydau Ysgol Am Ddim (PYD)?

Gallwch wneud cais newydd drwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/Free-School-Meals-in-Conwy-County-Borough.aspx>

6. Does gen i ddim cyfrif banc – beth ddylwn i ei wneud?

Ffoniwch y rhif Cyngor i Ysgolion a bydd y swyddogion yn gallu eich helpu i ddod o hyd i'r ateb mwyaf priodol.

Rhif Cyngor i Ysgolion: (01492) 575031

7. Rydw i wedi methu'r dyddiad cau ar gyfer llenwi'r ffurflen, beth dylwn ei wneud rŵan?

Ffoniwch y rhif Cyngor i Ysgolion: (01492) 575031

8. Rydw i wedi colli'r llythyr sy'n cynnwys fy nghyfeirnod hawlio – beth ddylwn i ei wneud?

Ffoniwch y rhif Cyngor i Ysgolion: (01492) 575031

9. Rwyf wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol a bydd yn rhaid imi aros 5 wythnos am benderfyniad. A fydd gen i hawl i daliad Pryd Ysgol Am Ddim?

Gwnewch gais am hawl Prydau Ysgol Am Ddim, trwy dudalen gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy pan fyddwch yn gwneud eich cais am Gredyd Cynhwysol am y tro cyntaf. Os oes gennych hawl i Gredyd Cynhwysol bydd eich cais am hawl Prydau Ysgol Am Ddim yn cael ei ystyried ar gyfer ôl-ddyddio.

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Benefits-and-grants/Education-Benefits/Free-School-Meals-in-Conwy-County-Borough.aspx>